



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Canolbarth a Gorllewin Iachach

Cenedlaethau'r
dyfodol yn byw
bywydau iach



Beth yw Canolbarth a Gorllewin Iachach?

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cymeradwyo'r strategaeth **Canolbarth a Gorllewin Iachach** fel ein canllaw iechyd a gofal trwy'r 20 mlynedd nesaf, fel y gallwn ni a chenedlaethau'r dyfodol fyw'n iach. Crynodeb yw hwn, ond gallwch ddarllen y ddogfen yn ei chyfanrwydd ar ein gwefan (www.bihyweldda.wales.nhs.uk/canolbarthagorllewiniachach) neu wneud cais am gopi trwy ffonio **01554 899056**. Mae fersiynau eraill ar gael yn cynnwys Hawdd ei Ddeall, ieuenctid, sain, animeiddiad ac Iaith Arwyddion Prydain.

Mae ein nôd yn debyg i'r hyn a nodwyd yn gyfreithiol gan Lywodraeth Cymru yn y ddogfen Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2018. Rydym am weld iechyd a gofal diogel, cynaliadwy, hygyrch a charedig.



DIOGEL



CYNALIADWY



HYGYRCH



CAREDIG

Pam gwneud hyn?

Daw ein gweledigaeth o sgysiau a gafwyd cyn, yn ystod ac yn dilyn ein hymgynghoriad yn 2018.

Gwnaethom gynnwys defnyddwyr ein gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ein staff ac unigolion a sefydliadau sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal neu sydd â diddordeb yn y maes.

Ein gweledigaeth

Rydym am i bobl fyw bywydau iach, llawen a phwrrpasol gydag ymdeimlad o berthyn. Rydym am i bobl a'r cymunedau maent yn byw ynddynt fod yn:

- **Gysylltiedig** - medru cyd-fyw a chyd-weithio
- **Cefnogol** - medru helpu'i gilydd
- **Ymaddasol** - medru newid yn ôl yr angen
- **Gwydn** - medru ymateb yn bositif i heriau
- **Medrus** - medru canfod ffyrdd i oresgyn problemau

Rydym yn newid o fod yn wasanaeth sy'n trin salwch yn unig i wasanaeth sy'n cadw pobl yn iach, sy'n atal afiechyd neu waethygu afiechyd ac sy'n darparu unrhyw gymorth sydd ei angen yn gynnar.

Ein nodau yw cefnogi teuluoedd mewn tri cham rhyng-gysylltiedig o fywyd:

Dechrau a datblygu'n iach

Bydd pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd hyd at oed gweithio, gan gefnogi ymddygiadau a chanlyniadau cadarnhaol ar hyd cwrs bywyd.



byw a gweithio'n iach

Bydd pob oedolyn yn byw ac yn gweithio mewn cymunedau gwydn sy'n grymuso cyfrifoldeb personol a chyfunol dros iechyd a llesiant.




tyfu'n hŷn yn iach

Bydd pob person hŷn yn cael cefnogaeth i gynnal iechyd a llesiant, gan fyw mor iach ac annibynnol â phosib o fewn rhwydweithiau cymdeithasol cefnogol.



Rhaid i ni weithio ar draws y **'system gyfan'** gan fod cynifer o bethau mewn bywyd yn effeithio ar iechyd a llesiant person. Yn ogystal â chanolbwyntio ar wasanaethau traddodiadol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, rydym hefyd yn canolbwyntio ar weithio gydag eraill mewn amryw feysydd megis gofal cymdeithasol, tai, addysg, cyflogaeth, hamdden, bwyd a'r amgylchedd.



Gyda'n gilydd, byddwn yn darparu mwy o gefnogaeth fel y gall pobl reoli eu hiechyd a'u llesiant yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Mae angen i ni wneud hyn er mwyn cadw pobl yn iach ac hefyd mewn ymateb i'r heriau sy'n gwneud ein gwasanaethau'n fregys iawn. **Mae'r heriau hyn yn cynnwys:**

Gweld mwy o gleifion sydd ag anghenion gwahanol, gan gynnwys anghenion poblogaeth hŷn



Staffio ein gwasanaethau i lefelau diogel a denu a chadw staff



Darparu gofal o hen adeiladau



Gwneud y defnydd gorau o'n harian a'n hadnoddau



Os na wnewn ni newid rydym yn wynebu risg fwy o achosi niwed i ddefnyddwyr ein gwasanaethau.

DIOGEL, CYNALIADWY, HYGYRCH A CHAREDIG



GOFAL MEWN
YSBYTY

GOFAL SY'N
CANOLBWYNTIO
AR UNIGOLION

BYW A
GWEITHIO'N
IACH

TYFU'N
HŶN YN
IACH

IECHYD A GOFAL
CYMDEITHASOL
GYDA'I GILYDD



DOSBARTH YMARFER CORFF

GOFAL YN Y GYMUNED

DECHRAU A
DATBLYGU'N
IACH

Caffi

Beth mae'n ei olygu i chi?

Byddwn yn cyd-weithio â phobl i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar 7 cymdogaeth yn ein hardal am fod ganddynt anghenion unigryw:

Gogledd Ceredigion

De Ceredigion

Gogledd Sir Benfro

De Sir Benfro

Taf, Tywi, Teifi

Aman a Gwendraeth

Llanelli




Bydd modd i chi gael cymorth o un pwynt cyswllt a fydd yn cysylltu'r holl fathau o wasanaethau iechyd a gofal.

Byddwn yn eu galw'n rwydweithiau cymunedol integredig a allai gynnwys y canlynol:



Meddygfeydd, practisau deintyddol ac optometrig a fferyllfeydd



Gwelyau cymunedol

boed mewn ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd a llesiant, cartrefi nyrsio a phreswyl neu hyd yn oed eich cartref eich hun



Awdurdod Lleol
gwasanaethau cyngor sir




Cefnogaeth trydydd sector neu gymunedol

Trwy'r cymdogaethau byddwn yn datblygu atebion i'r hyn sydd o bwys i bobl leol, gan gysylltu ac adeiladu ar gryfderau cymunedau fel bod gan bobl ymdeimlad o berthyn a chefnogaeth i gadw'n iach.

Bydd ein hysbytai yn chwarae rôl bwysig mewn darparu cefnogaeth arbenigol o ansawdd pan fo angen. Byddwn yn eu datblygu fel eu bod yn darparu cyfleoedd addysgu ac ymchwilio gan ddenu pobl i weithio gyda ni.





Elfen allweddol yw **ysbyty newydd** ar gyfer gofal argyfyngol a gofal wedi'i gynllunio yn ne ardal Hywel Dda. Bydd yn darparu gofal trawma a dyma bydd prif adran argyfyngol ein hardal. Bydd yma wasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Yma bydd pobl yn cael llawdriniaethau mawr, triniaeth ar gyfer cyflyrau meddygol neu lawfeddygol cymhleth pan yn sâl iawn, gofal iechyd meddwl arbenigol, neu brofion na ellir eu cynnal yn nes at adref. Bydd y mwyafrif o bobl ond yn defnyddio'r ysbyty hwn pan fydd angen gofal meddygol sylweddol arnynt, â'r mwyafrif yn aros llai na 72 awr cyn cael eu rhyddhau adref neu i ysbyty mwy lleol.



Bydd **Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin ac Ysbyty Llwynhelig, Hwlfordd** yn darparu unedau mân-anafiadau dan arweiniad Meddygon Teulu 24/7 gyda phrofion a chymorth, yn ogystal â therapi a gofal dan arweiniad nyrsys a gwelyau ar gyfer adfer ac ail-alluogi pobl. Bydd ynddynt unedau dan arweiniad bydwagedd, ynghyd â chemotherapi, gofal diwedd-oes a chlinigau cleifion allanol.



Yng ngogledd ein hardal, bydd **Ysbyty Bronglais, Aberystwyth**, yn darparu gofal brys yn cynnwys adran damweiniau ac achosion brys 24/7, a gofal wedi'i gynllunio, â'r achosion mwyaf arbenigol yn cael eu trosglwyddo i'r ysbyty newydd. Bydd llawfeddygaeth a thriniaeth yn ystod y dydd, uned dan arweiniad bydwagedd a genedigaethau risg-isel dan arweiniad ymgynghorwyr, yn ogystal â gwasanaethau cleifion allanol, gwasanaethau cemotherapi a gofal diwedd oes.



Bydd **Ysbyty Tywysog Philip, Llanelli**, yn darparu gofal mân-anafiadau dan arweiniad Meddyg Teulu 24/7 yn ogystal â gofal i oedolion mewn argyfwng meddygol a gwasanaethau profion (diagnostig). Bydd hyn yn cynnwys gwelyau dros nos i gleifion mewnol, llawfeddygaeth risg isel, cemotherapi, adsefydlu a gofal diwedd oes.



Nid yw'r **Teulu Jones** yn deulu go iawn ond mae eu hanghenion iechyd a'u llesiant yn nodweddiadol o nifer o bobl sy'n byw'n yr ardal hon a gallant ein helpu i feddwl am sut yr ydym yn datblygu gwasanaethau. Gallwch ddarllen amdanynt yn ein strategaeth lawn ar ein gwefan. Ond dyma ni'n cymryd cip-olwg ar beth allai bywyd fod fel mewn 20 mlynedd i'r fam-gu, Mari, cyn-athrawes sy'n mwynhau ei hobiau ac sydd â dementia ysgafn:

Roeddwn i mewn siop trin gwallt pan wnes i faglu dros fy nhraed a chwmpo. Gwnaeth y staff fy helpu a ffonio 999 ar unwaith a chawsom ein trosglwyddo i'r ddesg glinigol. Anfonwyd parafeddyg cymunedol i drin fy mriwiau a chrafiadau. Pan ddychwelodd i'w weithle dywedodd wrth dîm sy'n gweithio yn yr un adeilad (y Tîm Ymateb Cymunedol) beth oedd wedi digwydd, a nawr maen nhw'n mynd i ddod i'm gweld yn fy nghartref a thrin unrhyw faterion allai fod gen i o ran symudedd yn dilyn cwmpo.



Byddwn yn cyd-weithio'n agos â byrddau iechyd mewn ardaloedd eraill sydd eisoes yn darparu gofal arbeigol iawn ar gyfer ein cleifion ac hefyd gyda gwasanaethau cludo, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid ar isadeiledd trafniadaeth a theithio yn ein hardal.

Rydym yn gwybod fod y bobl sy'n byw bellaf o ardal ein hysbty newydd yn pryderu ynghylch cael mynediad at ofal argyfyngol. Byddwn yn cyd-weithio ag **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru** i gael mwy o uwch-ymarferwyr parafeddygol yn ein



cymunedau a all sefydlogi cleifion yn y fan a'r lle, diogelu llwybrau anadlu, anadlu a cylchrediad ac achub bywydau. Byddwn yn cefnogi'r achos dros gael darpariaeth 24/7 **Ambiwylans Awyr Cymru a'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS)**, sy'n darparu gofal allweddol i gleifion sydd angen triniaeth achub bywyd yn y fan a'r lle.

Byddwn hefyd yn darparu mwy o ofal gan ddefnyddio technolegau symudol newydd, megis technolegau sy'n helpu monitro anghenion gofal cleifion sydd â chyflyrau cronig yn eu cartrefi eu hunain, gan leihau ar yr angen i deithio.



// Sut allwch chi fod yn rhan o hyn?

Byddwn yn parhau i siarad â chynifer o bobl â phosibl, oherwydd mae iechyd a gofal yn effeithio ar bob un ohonom ac mae'n gyfrifoldeb i bawb. Rydym am gyd-gynllunio iechyd a gofal gyda'n gilydd fel ein bod yn diwallu eich anghenion ac yn cwrdd â'r disgwyliadau a'r canlyniadau sy'n bwysig i chi. Byddwn yn darparu gwahanol gyfleoedd i chi allu cymryd rhan, o sgwrsio **wyneb-yn-wyneb** mewn ddiwyddiadau a **grwpiau ffocws** llai o faint, i **gyfathrebu ysgrifenedig** ac **ar-lein**. Rydym am gynnwys cynifer o leisiau â phosibl, gan gynnwys lleisiau pobl sydd yn draddodiadol yn wynebu heriau a rhwystrau. Ein nod yw gwneud hyn trwy ddarparu unigolyn penodol ym mhob cymdogaeth i gefnogi'r sgwrs barhaus hon.



BYDDWN YN GWYBOD EIN BOD WEDI CWRDD Â'N NODAU TRWY WRANDO AR EICH BARN A'CH PROFIADAU.

Os ydych chi'n dymuno cymryd rhan, ymunwch â'n cynllun ymgysylltu sef Siarad Iechyd Talking Health yn **www.bihyweldda.wales.nhs.uk** neu ffoniwch **01554 899 056**.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board